# Ffosilau Bae Angl

Natur Ar Eich Stepen Drws

AMGUEDDFA CYMRU

Am ragor o ganllawiau natur neu i gael help gwyddonwyr amgueddfa i adnabod rhywogaethau, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

Ffurfiwyd creigiau Bae Angle yn Ne Sir Benfro tua 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl mewn moroedd trofannol, stormus, bas. Mae pob math o ffosilau i'w gweld yn y creigiau, ond peidiwch ceisio eu casglu.

**Cadwch draw o'r clogwyni – maen nhw'n ansefydlog a gallai craig syrthio unrhyw bryd.**

018

## Carbonifferaidd

Calchfaen llwyd mân, tua 360-340 miliwn o flynyddoedd oed, yw'r rhan fwyaf o greigiau Bae Angl. Cawsant eu ffurfio mewn moroedd trofannol bas.

Mae tystiolaeth o stormydd ffyrnig mewn rhai gwelyau, lle mae'r ffosilau wedi torri a throi. Mae digonedd o ffosilau, ond cadwch lygad am rai prin (nodwyd gyda seren). ★

**Peidiwch morthwylio'r clogwyni, neu unrhyw ffosilau mewn carreg soled. Mae'r bae yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.**



**Brachiopodau**
*Chonetes*
(2 – 3 cm)



**Brachiopod**
*Spirifer*
(1 – 3 cm)



**Brachiopod**
*Schellwienella*
(4 – 6 cm)



**Orthocôn**
Nawtilws syth
(5 – 10 cm)



**Bryosoad**
*Fenestella*
Anifail bach tebyg i rwyd.



**Brachiopod**
Rhynchonellid
(1 – 3 cm)



**Cwrel Unigol**
*Zaphrentis*
(hyd at 1 cm)




**Coesummau Crinoid**
(hyd at 1 cm o ddiamedr)
Fel arfer mewn darnau, wedi'u torri gan stormydd.



**Crinoid** ★
*Hylodecrinus cymrus*
(2 – 3 cm o led)
Yma yn unig!



**Cynffon Trilobit** ★
*Brachymetopus*
(1 cm)
Prin.



**Echinoid** ★
*Hyattechinus*
(2 – 5 cm o led)
Draenog môr prin iawn.



**Dant Siarc** ★
(1 – 2 cm)
Prin.



**Ôl-ffosil**
Tystiolaeth o anifail diflannedig yn tyllu drwy wely môr hynafol.



**Gastropod**
(hyd at 5 cm)
Molwsg gyda chragen droellog.